Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**
*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Rhan 4: Adran 32

## Cymhwysedd Uniongyrchol



All Wales Forum
Fforwm Cymru Gyfan

The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 radically transformed the way social services are delivered in Wales to meet the needs of the individual and make services sustainable for the future. It came into force in April 2016.

This guide gives a summary of the parts of that legislation that deal with eligibility for services.

## Crynodeb o Gymhwysedd am Wasanaeth

(yn cynnwys Taliadau Uniongyrchol a gofal a chefnogaeth a reolir).

Mae Adran 32 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i benderfynu a yw anghenion unigolyn yn bodloni'r meini prawf cymhwyso. Mae hefyd yn nodi sut y gellid diwallu'r anghenion hynny.

- Mae cymhwysedd yn cyfeirio at yr angen unigol nid yr unigolyn.
- Gellir penderfynu bod rhai agweddau ar ofal a chymorth unigolyn yn gymwys ac nid eraill.
- Gall amgylchiadau newidiol yr unigolyn effeithio ar eu cymhwysedd ar unrhyw adeg, nid yn unig pan fyddant yn cael eu hadolygu.
- Defnyddir y meini prawf cymhwyso cenedlaethol ar draws Cymru.

  https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/section/32/welsh

## Sut mae cymhwysedd unigolyn yn cael ei ganfod?

Canfyddir cymhwysedd drwy gynnal asesiad. Mae'r siart llif isod yn dangos y broses asesu;

https://socialcare.wales/cms_assets/hub-downloads/Flowchart How_to_access_ care_and_support.pdf

## Beth yw Taliad Uniongyrchol?

Mae Taliadau Uniongyrchol yn arian gan y cyngor i helpu unigolion a'u gofalwyr i drefnu a thalu am gefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion asesedig a'u canlyniadau lles cytunedig. Gellir defnyddio taliad uniongyrchol i dalu am bethau megis;

- **Gofal personol.**
- **Cefnogaeth i fyw bywyd llawn ac egnïol o'ch dewis.**
- **Cefnogaeth i Ofalwyr di-dâl.**
- **Offer, nwyddau a gwasanaethau.**
- **Cefnogaeth i greu datrysiadau mwy hyblyg a chreadigol.**

## Asesiad

Mae'r asesiad yn edrych ar 5 elfen a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

- **Amgylchiadau** 'r unigolyn
- **Canlyniadau** yr hoffent eu cyflawni
- **Rhwystrau** a wynebir wrth gyflawni'r canlyniadau hynny
- **Risgiau** a wynebir os nad ydynt yn cyflawni'r canlyniadau hynny
- **Cryfderau ac asedau**'r unigolyn.

Bydd yr asesiad yn edrych os oes gan yr unigolyn ganlyniadau personol y gellir eu cyflawni drwy:

- wasanaethau sydd eisoes ar gael yn y gymuned y gall yr unigolyn a asesir gael mynediad atynt
- ofal a chefnogaeth a gydlynir ganddyn nhw, eu teulu, gofalwyr neu eraill
- unrhyw ddull arall

Os nad ellir cyflawni'r canlyniadau drwy'r darpariaethau hyn, ystyrir bod gan y dinasyddion **anghenion** y gellir eu diwallu drwy ddarpariaeth gofal a chefnogaeth. Fe welwch restr isod o anghenion posibl oedolion, plant a gofalwyr;

## Anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyso - oedolion ag anghenion gofal a chymorth

Mae angen oedolyn y cyfeirir ato yn rheoliad 2(1) yn bodloni'r meini prawf cymhwyso os -

(a) mae'r angen yn codi o salwch corfforol neu feddwl, oedran, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau yr oedolyn, neu amgylchiadau tebyg eraill;

(b) mae'r angen yn ymwneud ag un neu fwy o'r canlynol -

- (i) gallu cyflawni arferion hunan-ofal neu ddomestig;
- (ii) gallu cyfathrebu;
- (iii) amddiffyn rhag cam-drin neu esgeulustod;
- (iv) cymryd rhan mewn gwaith, addysg, dysgu neu weithgareddau hamdden;
- (v) cynnal neu ddatblygu perthynas teulu neu berthnasau personol arwyddocaol eraill;
- (vi) datblygu a chynnal perthnasau cymdeithasol a chyfranogiad yn y gymuned; neu
- (vii) yw'n cyflawni cyfrifoldebau gofalu am blentyn;

## Anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyso - plant ag anghenion gofal a chymorth

Mae angen plentyn y cyfeirir ato yn rheoliad 2(2) yn bodloni'r meini prawf cymhwyso os -

(a) naill ai -

- (i) mae'r angen yn codi o salwch corfforol neu feddwl, oedran, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau y plentyn, neu amgylchiadau tebyg eraill; neu
- (ii) os nad yw'r angen wedi'i ddiwallu, mae'n debygol o gael effaith niweidiol ar ddatblygiad y plentyn;

(b) mae'r angen yn ymwneud ag un neu fwy o'r canlynol -

- (i) gallu cyflawni arferion hunan-ofal neu ddomestig;
- (ii) gallu cyfathrebu;
- (iii) amddiffyn rhag cam-drin neu esgeulustod;
- (iv) cymryd rhan mewn gwaith, addysg, dysgu neu weithgareddau hamdden;
- (v) cynnal neu ddatblygu perthynas teulu neu berthnasau personol arwyddocaol eraill;
- (vi) datblygu a chynnal perthnasau cymdeithasol a chyfranogiad yn y gymuned; neu
- (vii) cyrraedd nodau datblygu;

## Anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyso - gofalwyr ag anghenion cymorth

Mae angen gofalwr y cyfeirir ato yn rheoliad 2(3) yn bodloni'r meini prawf cymhwyso os -

(a) yw'r angen yn codi o ganlyniad i ddarparu gofal naill ai ar gyfer -
 (i) oedolyn sydd ag anghenion sy'n dod o fewn Rheoliad

3 (a) a (b), neu (ii) blentyn anabl;

(b) mae'r angen yn ymwneud ag un neu fwy o'r canlynol -

- (i) gallu cyflawni arferion hunan-ofal neu ddomestig;
- (ii) gallu cyfathrebu;
- (iii) amddiffyn rhag cam-drin neu esgeulustod;
- (iv) cymryd rhan mewn gwaith, addysg, dysgu neu weithgareddau hamdden;
- (v) cynnal neu ddatblygu perthynas teulu neu berthnasau personol arwyddocaol eraill;
- (vi) datblygu a chynnal perthnasau cymdeithasol a chyfranogiad y y gymuned; neu
- (vii) yn achos gofalwr sy'n oedolyn, cyflawni cyfrifoldebau gofalu am blentyn;
- (viii) yn achos gofalwr sy'n blentyn, cyflawni nodau datblygiadol

Daw'r anghenion yn gymwys os nad yw'r unigolyn yn debygol o gyflawni un neu fwy o ganlyniadau personol yr Oedolyn, Plentyn neu Ofalwr oni bai;

- (i) bod yr Awdurdod Lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chefnogaeth i ddiwallu'r angen neu
- (ii) fod yr Awdurdod Lleol yn diwallu'r angen drwy wneud Taliadau Uniongyrchol (neu yn achos gofalwr, oni bai bod yr Awdurdod Lleol yn darparu gofal ar gyfer yr unigolyn y mae'r gofalwr yn gofalu amdano).

## Pwyntiau eraill i'w cofio

Mae gan oedolion sydd mewn perygl o esgeulustod neu o gael eu cam-drin, neu yn achos plentyn, mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed arall, hawl awtomatig i gymhwysedd.

Mae'r Cod Ymarfer yn nodi bod rhai i'r penderfyniad o ran cymhwysedd fod ar wahân i unrhyw asesiad ariannol y gallai'r Awdurdod Lleol ei wneud o dan Rhan 5 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae Rhan 5 y Ddeddf yn caniatáu i'r Awdurdod Lleol godi tâl am wasanaethau. Cynhelir yr asesiad ariannol ar ôl gwneud penderfyniad o ran cymhwysedd.

Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn pwysleisio na ddylid defnyddio'r meini prawf cymhwyso fel adnodd i'w wneud yn ofynnol i unigolion ddangos eu bod wedi rhoi cynnig ar bob llwybr cefnogaeth arall cyn dod yn gymwys am gymorth gan yr Awdurdod Lleol.

## Rhagor o wybodaeth

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:**
https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents/welsh

**Y Fframwaith Mesur Perfformiad:**
https://senedd.wales/laid%20documents/sub-ld10272/sub-ld10272-w.pdf

**Y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol:**
http://gov.wales/docs/dhss/publications/14081 4nofen.pdf

**Canolfan Wybodaeth a Dysgu CGC:**
http://www.ccwales.org.uk/getting-in-on-the-act-hub